Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaethau Corfforaethol

# Canllawiau i yrwyr: Cerbydau cludo teithwyr (PCV)



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

Adran dros Drafnidiaeth

OGL

Swyddfa'r Comisiynydd Traffig

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol.
I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/** neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

cpt

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall a chydymffurfio â rhai rheolau a rheoliadau pwysig ynghylch ymddygiad a thrwyddedu gyrwyr yn y diwydiant bws a choets (PCV).

Mae'n darparu dolenni i ffynonellau gwybodaeth fanylach.

# Ymddygiad gyrwyr

**Mae ymddygiad gyrwyr yn cyfeirio at ymddygiad a gweithredoedd gyrwyr, yn y gwaith ac ar adegau eraill.**

Dylech fod yn ymwybodol o rôl y Comisiynwyr Traffig. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys:

- ystyried ymddygiad deiliaid trwyddedau PCV ac ymgeiswyr trwydded i ddal yr hawl
- atal neu ddiddymu trwyddedau gyrwyr galwedigaethol lle bo hynny'n briodol.

Yn ogystal â throseddau moduro, oriau gyrru'r gyrrwr a thacograff, gall hawl gyrrwr PCV cael ei atal neu ddiddymu oherwydd amryw o droseddau eang eraill.

Yn benodol, bydd euogfarnau difrifol am ymosodiad, lladrad neu gyflenwi cyffuriau yn rhoi rheswm i'r Comisiynydd Traffig i ystyried addasrwydd person i yrru bws neu goets, oherwydd y cyfleoedd mae'r gwaith yma yn rhoi i gael cyswllt agos gyda'r cyhoedd.

Mae yfed a gyrru, gyrru a chyffuriau, goryrru a defnyddio ffôn symudol â llaw yn peri risgiau penodol i ddiogelwch ar y ffyrdd. Gall Comisiynwyr Traffig atal neu ddiddymu hawl gyrrwr a'u gwahardd, os cawsant eu hadrodd am y troseddau hyn. Dylech ddweud wrth eich cyflogwr yn syth os cewch eich barnu'n euog o unrhyw drosedd moduro newydd. Mae gan weithredwyr ddyletswydd i adrodd am yr holl droseddau moduro a gyflawnir mewn unrhyw gerbyd i'r Comisiynydd Traffig.

Cofiwch: dim ond un drosedd a gallech golli'ch hawl i yrru bws.

Mae gwybodaeth fanwl ar sut mae Comisiynwyr Traffig yn delio â gyrwyr galwedigaethol ar gael yn: **www.gov.uk/government/publications/traffic-commissioners-vocational-driver-conduct-january-2016**

# Fel gyrrwr bws neu goets, dylech ddilyn canllawiau cyflogwyr a'r llywodraeth i sicrhau diogelwch eich hun, eich teithwyr, defnyddwyr eraill y ffordd a cherddwyr.

**35 awr**

o hyfforddiant cyfnodol bob **5 mlynedd**

Rhaid adnewyddu cerdyn gyrrwyr digidol pob **5 mlynedd**

## Cerdyn CPC gyrrwr

**Rhaid i chi bob amser gario'ch Cerdyn Cymhwyster Gyrrwr neu'ch Cerdyn Cymhwyster Gyrrwr Cenedlaethol (ar gyfer Tystysgrif o Gymhwyster Proffesiynol Gyrrwr) wrth yrru bws.**

Rhaid i chi gwblhau 35 awr o hyfforddiant cyfnodol bob 5 mlynedd tuag at eich Tystysgrif o Gymhwyster Proffesiynol Gyrwyr i yrru bws. Mae rhagor o wybodaeth yn **www.gov.uk/driver-cpc-training**

Rhaid i chi hefyd gario eich Cerdyn Cymhwyster Gyrrwr os cyhoeddwyd un i chi.

## Cerdyn tacograff gyrrwr

Rhaid i chi hefyd gario cerdyn gyrrwr digidol os cyhoeddwyd un i chi, hyd yn oed os ydych chi'n gyrru cerbyd gyda thacograff analog.

Os yw eich gwaith wedi'i gwmpasu gan reoliadau oriau gyrwyr yr UE ac mae gan eich cerbyd tacograff digidol, mae'n rhaid i chi ddefnyddio cerdyn gyrrwr yn ôl y gyfraith. Os yw cerbyd wedi'i osod gyda thacograff digidol yn cael ei ddefnyddio ar waith sy'n cael ei gwmpasu gan reolau domestig Prydain, rhaid ei osod i 'allan o gwmpas' oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio fel dewis arall i gadw cofnodion mewn llyfr log gyrrwr.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn **www.gov.uk/tachographs**

Am ragor o wybodaeth am faint o oriau y gallwch eu gyrru a'r egwyliau y mae angen i chi eu cymryd, gweler **www.gov.uk/drivers-hours**




# Trwyddedu gyrwyr a chyflyrau meddygol

**Os oes gennych drwydded gyfyngedig oherwydd cyflyrau meddygol neu yr ydych yn gyrru dramor dylech wneud cais i adnewyddu eich hawl i'r drwydded yrru cyn gynted ag y bo modd (fel arfer 60 diwrnod cyn iddi ddod i ben). Bydd hyn yn sicrhau bod gan DVLA ddigon o amser i ymchwilio i unrhyw gyflyrau meddygol.**

Dylech fod yn ymwybodol, pan fyddwch yn adnewyddu eich hawl galwedigaethol ar eich trwydded, bod yr hawl yn ddilys o'r dyddiad y mae'n cael ei gyhoeddi gan DVLA. Efallai na fydd hyn yn cyfateb â dyddiad dod i ben yr hawl blaenorol.



Nid oes angen i chi ddychwelyd eich cerdyn gyrwyr wrth adnewyddu eich hawl tacograff.

## Eich cyfrifoldeb chi yw gwybod pryd mae eich trwydded yrru, cerdyn gyrrwr a cherdyn CPC yn dod i ben.

Gallwch wirio pa gerbydau y gallwch eu gyrru, faint o bwyntiau cosb sydd gennych, a phryd y bydd eich trwydded gyfredol yn dod i ben ar unrhyw adeg gan ddefnyddio gwasanaeth Gweld Trwydded Yrru DVLA. Bydd angen eich rhif trwydded yrru a rhif Yswiriant Gwladol arnoch i'w ddefnyddio. Mae hwn yn wasanaeth am ddim ac mae ar gael yn **www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru**

## Rhaid i chi ddweud wrth DVLA ac i'ch cyflogwr am unrhyw gyflwr meddygol hysbysadwy. Mae'r rhan fwyaf o yrwyr sy'n dweud wrth DVLA am gyflwr meddygol yn dal i gadw eu hawl.


Mae'r rhai nad ydynt yn dweud wrth DVLA yn cyflawni trosedd ac efallai eu bod yn berygl i ddefnyddwyr ffyrdd eraill a cherddwyr.

Gallwch gael fwy o wybodaeth am gyflyrau hysbysadwy yn **www.gov.uk/health-conditions-and-driving** neu gofynnwch i'ch meddyg teulu p'un a allai cyflwr presennol neu newydd effeithio ar eich gallu i yrru'n ddiogel.

Os ydych wedi dweud wrth DVLA am gyflwr meddygol, dylech gadw cysylltiad agos â'ch meddyg teulu i sicrhau bod unrhyw gais am wybodaeth gan DVLA yn cael ei drin yn brydlon.

Mae ffurflenni cais ar gael ar-lein yn **www.gov.uk/dvlaforms** neu gallwch eu cael o'ch Swyddfa'r Post agosaf sy'n delio â cheisiadau am drwyddedau gyrru.

Ewch i **www.postoffice.co.uk/branch-finder** i ddod o hyd i'ch Swyddfa'r Post priodol agosaf.



Dylai gyrwyr PCV gynnal archwiliadau bob dydd i gadw safonau diogelwch
ar gyfer eu cerbydau, a enwir yn wiriad edrych
o amgylch y cerbyd:

**www.gov.uk/government/publications/heavy-good-vehicle-drivers-daily-walkaround-check**

Am ragor o wybodaeth ar yrru lori,
bws a choets ewch i:

**www.gov.uk/browse/driving**

a

**www.gov.uk/browse/driving/drivers-lorries-buses**

**Gwasanaethau Corfforaethol**

**Canllawiau i yrwyr**
Cerbydau cludo teithwyr (PCV)

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL
**gov.uk/dvla**

**D892/1W**
12/24